Crynodeb o'r Papur Gwyn *Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus: Cwynion, Unioni Cam a Thribiwnlysoedd*

Mae'r Papur Gwyn hwn yn ymwneud â gwella gwasanaethau cyhoeddus a gwella'r hawl i gyfiawnder – cyfiawnder gweinyddol a chyfiawnder yn y gweithle.

Mae'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn gwneud miliynau o benderfyniadau bob blwyddyn sy'n ymwneud â hawliau a dyletswyddau unigolion. Mae gan bob un ohonom hawl i ddisgwyl y bydd y Wladwriaeth yn cael penderfyniadau'n iawn, ond ni all unrhyw gyfundrefn fyth fod yn berffaith. Lle bo camgymeriadau'n digwydd, neu lle bo ansicrwydd, mae gennym hawl i gwyno ac i wybod y bydd unrhyw gamgymeriadau'n cael eu cywiro mor ddidrafferth ag sy'n bosib. Yn yr un modd, mae gan weithwyr hawl i safonau teg a theilwng yn y gweithle, ac i ffordd o unioni cam lle nad yw'r safonau hyn yn cael eu cadw. Mae tribiwnlysoedd yn delio gydag oddeutu miliwn o achosion bob blwyddyn. Maent yn un ffordd o unioni cam ond nid dyma'r unig ffordd.

Cyflwynodd Syr Andrew Leggatt ddadl gref dros ddiwygio tribiwnlysoedd yn ei adroddiad *Tribunals for Users - One System, One Service*. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen diwygiadau ac mae'r Papur Gwyn hwn ar ffurf ymateb ffurfiol i adroddiad Syr Andrew. Ond mae'r rhaglen ddiwygio sydd yn y Papur Gwyn hwn yn gwneud mwy nag edrych ar dribiwnlysoedd – mae'n edrych ar y gyfundrefn cyfiawnder gweinyddol yn ei chyfanrwydd ac yn nodi cynigion ar gyfer gwella'r broses o ddatrys anghydfodau o'r dechrau i'r diwedd.

Mae'r Papur Gwyn yn cymryd fel ei fan cychwyn beth y mae defnyddwyr ei eisiau. Maent eisiau cyflawni rhywbeth. Nid ydynt yn dewis y profiad o fynd gerbron tribiwnlys o'u gwirfodd. Maent yn chwilio yn hytrach am ateb i ryw broblem sydd ganddynt, problem na ellir ei datrys â'r gyfundrefn bresennol heb fynd i dribiwnlys. Pe gallent ddatrys eu hanghydfod yn rhwydd ac yn fuan, heb orfod mynd gerbron tribiwnlys, byddent yn llawer hapusach eu byd.

Mae'r Papur Gwyn felly'n edrych sut y gall y gyfundrefn ddatrys anghydfodau yn y man lle maent yn tarddu yn hytrach nag mewn tribiwnlysoedd. Mae hyn yn golygu helpu i wella safonau gwneud penderfyniadau ym mhob agwedd ar lywodraeth a, lle bo pethau'n mynd o chwith, hybu dulliau cyflymach a mwy effeithiol o ddatrys anghydfodau, fel bod llai o achosion yn dod gerbron tribiwnlysoedd.

Yn y dull cymesur hwn o ddatrys anghydfodau yr amlygir am y tro cyntaf strategaeth newydd yr adran ar gyfer helpu defnyddwyr y gyfundrefn gyfiawnder i ddatrys problemau heb orfod troi at wrandawiadau ffurfiol.

Yn ganolog i'r cynigion y mae cynlluniau ar gyfer gwasanaeth unedig, yn lle'r trefniant tameidiog presennol. Bydd y sefydliad newydd yn seiliedig ar y sefydliadau tribiwnlysoedd mwyaf sy'n cael eu gweinyddu gan y llywodraeth ganolog, ac sy'n gyfrifol gyda'i gilydd am fwy na 90% o achosion tribiwnlysoedd. Bydd yn cael ei sefydlu'n ffurfiol yn Ebrill 2006 ond rydym yn recriwtio Prif Weithredwr yn awr.

Bydd dod â thribiwnlysoedd mwyaf y llywodraeth ganolog at ei gilydd i ffurfio un gwasanaeth yn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei ddarparu'n fwy effeithiol ac effeithlon mewn tribiwnlysoedd. Ond bydd y corff newydd yn fwy na dim ond ffederasiwn o'r tribiwnlysoedd presennol. Bydd yn sefydliad newydd ac yn fath newydd o sefydliad. Bydd ganddo ddwy golofn ganolog: apeliadau cyfiawnder gweinyddol ac achosion cyflogaeth. Ei genhadaeth fydd helpu i atal a datrys anghydfodau, gan ddefnyddio unrhyw ddull priodol a gweithio gyda'i bartneriaid oddi mewn ac oddi allan i lywodraeth, a helpu i wella cyfiawnder gweinyddol a chyfiawnder yn y gweithle, fel bod llai o angen anghydfod.

Yn y sefydliad newydd bydd aelodau a staff tribiwnlysoedd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu amrediad o wasanaethau sefydledig ac arloesol i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac i'r rhai hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn ceisio unioni cam drwy'r gyfundrefn. Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cynlluniau i dreialu gwasanaethau newydd.

Adain weinyddol y sefydliad newydd hwn fydd asiantaeth weithredol a fydd yn rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Bydd yn cael ei hadwaen dros dro fel y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, er bod y Papur Gwyn yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer enw newydd i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Bydd y sefydliad newydd yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr y gyfundrefn. Gall defnyddwyr ddisgwyl manteision amrywiol gan gynnwys:

- Tribiwnlysoedd yn amlwg yn annibynnol ar y rhai hynny y maent yn adolygu eu penderfyniadau;
- Rhwydwaith cenedlaethol priodol o ganolfannau gwrandawiadau yn eu gwneud yn haws i'w defnyddio;

- Gwell gwybodaeth am y broses dribiwnlysoedd;
- Gwell cyngor a chefnogaeth;
- Amseroedd aros byrrach neu fwy priodol;
- Golwg ac ymdeimlad cyffredin i dribiwnlysoedd gan gynnwys termau cyffredin a safonau cyffredin ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid;
- Gwrandawiadau sy'n llai brawychus ac yn llai deddfol; a
- Safon uwch i benderfyniadau gwreiddiol – bydd gan y sefydliad newydd ddyletswydd statudol i weithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gwella'r gyfundrefn yn ei chyfanrwydd.

Bydd dod â'r farnwriaeth dribiwnlysoedd ynghyd mewn un gwasanaeth hefyd yn gwneud y farnwriaeth yn fwy annibynnol ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cael eu defnyddio. Mae'r Papur Gwyn yn nodi nifer o ddiwygiadau barnwrol gan gynnwys:

- Creu swydd Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, yn darparu arweiniad clir ac un llais i'r farnwriaeth dribiwnlysoedd. Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi penodi Arglwydd Ustus Carnwath i ymgymryd â'r rôl hon hyd nes y daw'r ddeddfwriaeth i rym;
- Creu cyfundrefn leoli unedig a chydlynol ar gyfer y rhai hynny sy'n eistedd mewn tribiwnlysoedd rheng gyntaf ac un arall ar gyfer y rhai hynny sy'n eistedd mewn tribiwnlysoedd apeliadol;
- Rhoi enw newydd i aelodau cyfreithiol tribiwnlysoedd, sef 'Barnwr Tribiwnlysoedd' a 'Barnwr Apeliadau Tribiwnlysoedd' yn y drefn honno;
- Symleiddio'r trefniadau lle gall aelodau o banelau eistedd mewn mwy nag un awdurdodaeth tra'n diogelu gwybodaeth arbenigol angenrheidiol; a
- Gwella rhagor ar y trefniadau ar gyfer hyfforddi a gwerthuso.

Credwn hefyd fod angen newidiadau strwythurol i rai rhannau o'r gyfundrefn dribiwnlysoedd er mwyn sicrhau'r gyfundrefn fwy cydlynol a ragwelir gennym. O ganlyniad, mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi cynlluniau ar gyfer nifer o ddiwygiadau eraill gan gynnwys creu:

- pwyllgor statudol ar gyfer penderfyniadau tribiwnlysoedd;
- strwythur mwy cydlynol ar gyfer apeliadau ac adolygiadau;
- cyfundrefn unedig ar gyfer apeliadau treth; a
- rôl newydd a gwell ar gyfer y Cyngor Tribiwnlysoedd, a fydd ymhen amser yn datblygu i fod yn Gyngor Cyfiawnder Gweinyddol.